



cyngor doeth am

GYLLID I FYFYRWYR



Help ychwanegol – Grantiau Dibynyddion 2016/17

www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk



student finance wales
cyllid myfyrwyr cymru



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

**Beth yw
Cyllid
Myfyrwyr
Cymru?**

Tudalen 2

**Adran 1
Am beth
mae'r canllaw
hwn yn sôn?**

Tudalen 4

**Adran 2
A ydw i'n
gymwys?**

Tudalen 6

**Adran 3
Beth fydd
modd i mi ei
gael?**

Tudalen 8

**Adran 4
Sut a phryd
ddylwn i
wneud cais?**

Tudalen 12

**Adran 5
Gwybodaeth
bellach**

Tudalen 16



Beth yw Cyllid Myfyrwyr Cymru?

Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn wasanaeth a ddarparir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr. Rydym yn darparu cymorth ariannol ar ran Llywodraeth Cymru i fyfirwyr o Gymru sy'n cychwyn ar gwrs addysg uwch yn y Deyrnas Unedig.

Bydd y canllaw hwn yn eich helpu os ydych yn gwneud cais am gymorth ychwanegol oherwydd bod gennych chi blentyn neu oedolyn dibynnol.

Am ragor o ganllawiau ac offer defnyddiol, neu os hoffech wneud cais, ewch i:
www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk

Gallwch weld diweddariadau rheolaidd ar Facebook, Twitter a YouTube:

 /SFWales

 /SF_Wales

 /SFWFILM

AM BETH MAE'R CANLLAW HWN YN SÔN?

Mae'r canllaw hwn yn darparu gwybodaeth i fyfyrwyr amser llawn sy'n byw yng Nghymru ac sydd â phlant neu oedolion dibynol.

Os oes gennych chi blentyn neu oedolyn dibynol ac os ydych yn dymuno astudio cwrs israddedig neu gwrs Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon (HCA), efallai y gallech gael help ariannol ychwanegol.

Gallech gael Grant Gofal Plant, Lwfans Dysgu i Rieni neu Grant Oedolion Dibynol. Ni fydd yn rhaid i chi dalu unrhyw rai o'r rhain yn ôl fel arfer. Mae'r canllaw hwn yn esbonio pwy fydd yn gallu cael y grantiau hyn a sut i wneud cais amdanynt.



Am ragor o wybodaeth ynghylch ymgeisio am gyllid i fyfyrwyr, dylai myfyrwyr amser llawn newydd ddarllen 'Cyllid i fyfyrwyr – myfyrwyr amser llawn newydd 2016/17'.

Dylai myfyrwyr llawn amser sy'n parhau ddarllen 'Cyllid i fyfyrwyr – myfyrwyr llawn amser sy'n parhau 2016/17'.

Gallwch lawrlwytho'r canllawiau hyn o: **www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk**

Mae trefniadau tebyg ar gael os ydych yn byw yn Lloegr, yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon. Gallwch gael gwybod mwy am yr hyn sydd ar gael yn y man lle'r ydych yn byw trwy droi at y gwefannau canlynol:

Lloegr:

www.gov.uk/studentfinance

Gogledd Iwerddon:

www.studentfinanceni.co.uk

Yr Alban:

www.saas.gov.uk

Dinasyddion Ewropeaidd:

www.gov.uk/studentfinance

Nid yw'r canllaw hwn ar gyfer myfyrwyr y maent yn gymwys i wneud cais am fwrsariaeth myfyrwyr GIG neu fwrsariaeth gwaith cymdeithasol ôl-raddedig. Caiff Cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru ei redeg gan Uned Dyfarniadau Myfyrwyr GIG Cymru: am wybodaeth bellach, trowch at:

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/955/tudalen/66243>



Grant Gofal Plant (CCG)

Gallwch wneud cais am Grant Gofal Plant os ydych yn fyfyrwr israddedig neu'n fyfyrwr Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon ôl-raddedig ac ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd:

- mae gennych chi o leiaf un plentyn dibynnol dan 15 oed, sydd mewn gofal plant cofrestredig neu gymeradwy, neu
- mae gennych chi o leiaf un plentyn dibynnol dan 17 oed, sydd wedi cofrestru fel plentyn ag anghenion addysgol arbennig ac sydd mewn gofal plant cofrestredig neu gymeradwy.

Efallai y gallech hefyd gael Grant Gofal Plant:

- os ydych yn byw yng Nghymru fel arfer ac yn astudio mewn gwlad dramor fel rhan o'ch cwrs yn y Deyrnas Unedig, a
- os oes modd i chi ddefnyddio gofal plant a ddarparir gan gynllun achredu'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn ystod eich cyfnod mewn gwlad dramor.

Os yn ystod y flwyddyn academaidd, ydych chi neu'ch partner yn derbyn:

- elfen gofal plant Credyd Treth Gwaith neu Gredyd Cynhwysol, neu
- Ofal Plant Di-dreth gan Gyllid a Thollau EM, neu
- Lwfans Gofal Plant gan y GIG

ni fyddwch yn gallu cael Grant Gofal Plant ar yr un pryd. Gallwch ddewis Grant Gofal Plant yn lle hyn, ond dim ond os ydych yn stopio derbyn cefnogaeth gan y ffynonellau hyn y byddwch yn ei gael.

Mathau o ofal plant sy'n gymwys

Os ydych yn byw yng Nghymru fel arfer ac yn astudio yno, gallwch ymgeisio am y Grant Gofal Plant os yw'ch gofal plant:

- yn cael ei ddarparu gan warchodwr plant, meithrinfa neu gynllun chwarae sydd wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- yn cael ei ddarparu gan glwb tu allan i oriau ysgol, wedi'i leoli mewn ysgol ac yn cael ei redeg gan ysgol neu awdurdod lleol
- yn cael ei ddarparu yng nghartref eich plentyn gan weithiwr gofal neu nyrs o asiantaeth sydd wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, neu gan ofalwr sydd wedi ei gymeradwyo dan Gynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant
- yn cael ei ddarparu gan ofalwr maeth cymeradwy (rhaid bod y gofal ar gyfer plentyn nad yw'n cael ei faethu gan y gofalwr maeth)

Os ydych yn byw yng Nghymru fel arfer ond yn astudio mewn rhan arall o'r Deyrnas Unedig, bydd eich darparwr gofal plant yn destun gwahanol amodau.

Am ragor o wybodaeth, trowch at:
www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk

Ni fydd modd i chi gael y Grant Gofal Plant os caiff eich gofal plant ei ddarparu gan:

- eich partner
- perthynas i'ch plentyn ac os yw'n darparu'r gofal yng nghartref eich plentyn

- perthynas i'ch plentyn ac:

- wedi ei gymeradwyo dan Gynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal plant yng Nghymru, neu Gynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref yng Ngogledd Iwerddon
- yn darparu gofal mewn man ac eithrio cartref eich plentyn

ac

- yn gofalu am blant y mae'n perthyn iddynt yn unig

Mae perthynas i'r plentyn yn golygu rhiant, mam-gu/nain neu dad-cu/taid, modryb, ewythr, brawd, chwaer, rhywun sy'n perthyn trwy waed neu briodas, neu unigolyn sydd â pherthynas agos gyda'r plentyn (er enghraifft, rhywun sy'n ymddwyn fel rhiant i blentyn ei bartner).


Lwfans Dysgu i Rieni (PLA)

Mae modd i chi wneud cais am Lwfans Dysgu i Rieni os ydych yn fyfyrwr israddedig neu'n fyfyrwr Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon ôl-raddedig gyda phlant dibynnol. Mae'r lwfans hwn yn helpu talu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig gyda bod yn rhiant ac yn fyfyrwr. Ni fydd angen i chi fod yn talu am ofal plant er mwyn bod yn gymwys.

Grant Oedolion Dibynnol (ADG)

Gallwch wneud cais am Grant Oedolion Dibynnol os ydych yn fyfyrwr israddedig neu'n fyfyrwr Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon ôl-raddedig ac mae gennych chi oedolyn sy'n dibynnu arnoch chi mewn ffordd ariannol.

Gall yr oedolyn fod yn bartner neu'n oedolyn arall sy'n dibynnu arnoch chi mewn ffordd ariannol. Ni ellir ystyried plant sydd wedi tyfu i fyny ac oedolion sy'n cael cyllid i fyfyrwyr fel oedolion dibynnol.



Grant Gofal Plant (CCG)

Beth yw diben hwn?

Mae'n helpu talu costau gofal plant os oes gennych chi blentyn dibynnol dan 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd (neu dan 17 oed os oes ganddo anghenion addysgol arbennig) ac os yw'n cael gofal plant cofrestredig neu gymeradwy. Gall hyn gynnwys plant a enir yn ystod y flwyddyn academiaidd.

Faint fydd modd i mi ei gael?

Gan ddibynnu ar incwm eich cartref, gallwch wneud cais am hyd at 85% o'ch costau gofal plant go iawn yn ystod y tymor a'r gwyliau. Os ydych yn astudio dan drefniant amser llawn, pennir uchafswm o £161.50 yr wythnos ar gyfer un plentyn neu £274.55 yr wythnos ar gyfer dau blentyn neu fwy.

(Incwm eich cartref yw incwm eich gŵr, eich gwraig neu'ch partner [os oes gennych bartner] ac unrhyw ddiabyddion.)

Os na fyddwch yn darparu manylion am eich darparwr gofal plant yn eich ffurflen gais CCG1, pennir uchafswm ar gyfer eich rhandaliad cyntaf o'r Grant Gofal Plant. Os ydych yn astudio dan drefniant amser llawn, pennir uchafswm o £115 yr wythnos ar gyfer eich rhandaliad cyntaf o'ch Grant Gofal Plant, neu 85% o'ch amcangyfrif (pa un bynnag yw'r swm isaf).

Sut fydd yn cael ei dalu?

Ar ffurf tri rhandaliad fel arfer, un ar ddechrau pob tymor, i'ch cyfrif banc yn uniongyrchol. Fel arfer, telir y Grant Gofal Plant gydag unrhyw Fenthyciad Cynhaliath a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru y gallech ei gael. Fodd bynnag, os byddwch yn gwneud cais am Grant Gofal Plant ar ôl i chi gychwyn eich cwrs, efallai y byddwch yn cael taliad ar wahân.



A fydd yn rhaid i mi ei dalu'n ôl?

Na, oni bai:

- bod swm y costau gofal plant amcangyfrifedig a nodwyd gennych yn eich cais yn uwch na'ch costau go iawn
- na fyddwch yn cadarnhau eich costau gofal plant go iawn pan fyddwn yn gofyn i chi wneud hynny

Os bydd y costau gofal plant go iawn yn llai na'r swm a amcangyfrifwyd gennych, byddwn yn gostwng cyfanswm eich rhandaliad nesaf o'r Grant Gofal Plant. Os na fyddwch yn cadarnhau eich costau gofal plant, bydd eich rhandaliad nesaf o'r Grant Gofal Plant yn cael ei stopio, a bydd yn rhaid i chi ad-dalu unrhyw Grant Gofal Plant ydych chi eisoes wedi ei dderbyn.

Unrhyw beth arall?

Rhaid i chi wneud cais am y Grant Gofal Plant cyn pen naw mis o ddechrau'r flwyddyn academaidd.

Os yn ystod y flwyddyn academaidd, ydych chi neu'ch gŵr, gwraig neu bartner yn derbyn:

- elfen gofal plant Credyd Treth Gwaith neu Gredyd Cynhwysol
- Gofal Plant Di-dreth gan Gyllid a Thollau EM, neu
- Lwfans Gofal Plant gan y GIG

ni fyddwch yn gallu cael Grant Gofal Plant ar yr un pryd. Gallwch ddewis Grant Gofal Plant yn lle hyn, ond dim ond os ydych yn stopio derbyn cefnogaeth gan y ffynonellau hyn y byddwch yn ei gael.

Os oes modd i chi hawlio budd-daliadau sy'n seiliedig ar incwm neu Gredyd Cynhwysol, ni fydd unrhyw Grant Gofal Plant y byddwch yn ei gael yn cael ei ystyried pan gaiff eich budd-dal ei gyfrifo.

Lwfans Dysgu i Rieni (PLA)

Beth yw diben hwn?

Mae'n helpu talu costau sy'n gysylltiedig â'r cwrs os oes gennych chi blant dibynnol.

Faint fydd modd i mi ei gael?

Gallwch gael hyd at £1,557 y flwyddyn. Bydd y swm y gallwch ei gael yn dibynnu ar incwm eich cartref, sef incwm eich gŵr, eich gwraig neu'ch partner (os oes partner gennych) ac unrhyw ddiabyddion.

Sut fydd yn cael ei dalu?

Ar ffurf tri rhandaliad fel arfer, un ar ddechrau pob tymor, i'ch cyfrif banc yn uniongyrchol. Fel arfer, telir y Lwfans Dysgu i Rieni gydag unrhyw Fenthyciad Cynhaliath a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru y gallech ei gael. Fodd bynnag, os byddwch yn gwneud cais ar ôl i chi gychwyn eich cwrs, efallai y byddwch yn cael taliad ar wahân.

A fydd yn rhaid i mi ei dalu'n ôl?

Na, oni bai eich bod wedi cael gordaliad o ganlyniad i'r ffaith bod eich amgylchiadau wedi newid. Felly mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni yn gynnar os bydd eich amgylchiadau yn newid.



Er mwyn helpu sicrhau eich bod wedi cael swm cywir y Grant Gofal Plant, bydd angen i chi lenwi Ffurflen Cadarnhau Costau Gofal Plant (CCG2) ar ddiwedd pob cyfnod o ofal plant.

Unrhyw beth arall?

Rhaid i chi wneud cais am y Lwfans Dysgu i Rieni cyn pen naw mis o ddechrau'r flwyddyn academaidd.

Gallwch wneud cais am y Lwfans Dysgu i Rieni hyd yn oed os na fyddwch yn talu am ofal plant.

Dylech anfon tystysgrif geni wreiddiol eich plentyn a'ch hysbysiad dyfarniad Credyd Treth neu'ch llythyr Budd-dal Plant diweddaraf.

Ni chaiff Lwfans Dysgu i Rieni ei ystyried pan gaiff eich budd-daliadau eraill neu'r Credyd Cynhwysol eu cyfrifo, felly ni fydd yn rhaid i chi ddewis rhwng Lwfans Dysgu i Rieni a'r budd-daliadau eraill hynny neu'r Credyd Cynhwysol.

Grant Oedolion Dibynnol (ADG)

Beth yw diben hwn?

Helpu os oes gennych chi oedolyn sy'n dibynnu arnoch yn ariannol.

Faint fydd modd i mi ei gael?

Bydd y swm y gallwch ei gael yn dibynnu ar incwm eich cartref, sef incwm eich dibynyddion (gan gynnwys eich gŵr, eich gwraig neu'ch partner). Gallwch gael hyd at £2,732 y flwyddyn.

Sut fydd yn cael ei dalu?

Ar ffurf tri rhandaliad fel arfer, un ar ddechrau pob tymor, i'ch cyfrif banc yn uniongyrchol, ynghyd ag unrhyw Fenthyciad Cynhaliath a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru y gallech ei gael. Os byddwch yn gwneud cais ar ôl i chi gychwyn eich cwrs, efallai y byddwch yn cael taliad ar wahân.

A fydd yn rhaid i mi ei dalu'n ôl?

Na, oni bai eich bod wedi cael gordaliad o ganlyniad i'r ffaith bod eich amgylchiadau wedi newid. Felly mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni os bydd eich amgylchiadau yn newid.

Unrhyw beth arall?

Rhaid i chi wneud cais am y Grant Oedolion Dibynnol cyn pen naw mis o ddechrau'r flwyddyn academaidd.

Gallai oedolyn dibynnol fod:

- eich gŵr, eich gwraig neu'ch partner sifil
- yn bartner yr ydych yn byw gydag ef/hi fel cwpl, os ydych dros 25 oed
- yn oedolyn arall sy'n dibynnu arnoch mewn ffordd ariannol (aelod o'ch teulu fel arfer)

Ni all oedolyn dibynnol fod:

- yn blentyn sydd wedi tyfu i fyny
- yn bartner neu'n oedolyn arall sy'n cael cyllid i fyfyrwyr

Bydd unrhyw Grant Oedolion Dibynnol y byddwch yn ei gael yn cael ei ystyried fel incwm wrth gyfrifo pa fudd-daliadau neu Gredyd Cynhwysol y gallwch eu cael.



Ni fydd unrhyw Grant Gofal Plant neu Lwfans Dysgu i Rieni y byddwch yn ei gael yn cael ei gyfrif pan gaiff eich credydau treth, eich budd-daliadau'r wladwriaeth a'ch Credyd Cynhwysol eu cyfrifo, ond bydd unrhyw Grant Oedolion Dibynnol yn cael ei ystyried.

Budd-daliadau

Ni fydd gan y rhan fwyaf o fyfyrwyr amser llawn yr hawl i gael budd-daliadau yn seiliedig ar incwm neu Gredyd Cynhwysol. Fodd bynnag, efallai y bydd rhai myfyrwyr penodol (gan gynnwys rhieni sengl, cyplau sy'n fyfyrwyr ac y mae ganddynt blant dibynnol, a rhai myfyrwyr anabl) yn gymwys i gael budd-daliadau sy'n seiliedig ar incwm, gan gynnwys Budd-dal Tai a rhai rhannau o'r Credyd Cynhwysol.

Os ydych yn dymuno dilyn cwrs, dylech droi at: www.gov.wales/topics/people-and-communities/welfare-reform-in-wales/advice-and-support am ragor o wybodaeth, oherwydd gallai hyn effeithio ar eich budd-daliadau neu'r Credyd Cynhwysol.

Ceir mathau o fenthyciadau a grantiau gan gyllid i fyfyrwyr y bydd Canolfan Byd Gwaith ac adran Budd-dal Tai eich awdurdod lleol yn eu hystyried wrth gyfrifo'ch hawl i gael budd-daliadau neu Gredyd Cynhwysol.

Mae'r rhestr ganlynol yn cynnig enghreifftiau o'r benthyciadau a'r grantiau y byddent yn cael eu hystyried:

BYDDENT

- Y rhan fwyaf o unrhyw Fenthyciad Cynhaliath y mae modd i chi ei gael, hyd yn oed os byddwch yn dewis peidio ei gymryd
- Grant Dysgu Llywodraeth Cymru
- Grant Oedolion Dibynnol
- Bwrsariaethau nad ydynt ar gyfer costau sy'n ymwneud â'ch cwrs neu ofal plant

NA FYDDENT

- Grant Ffioedd
- Benthyciad Ffioedd Dysgu
- Grant Cymorth Arbennig
- Grant Gofal Plant
- Lwfans Dysgu i Rien
- Lwfansau i Fyfrwyr Anabl
- Bwrsariaethau er mwyn talu costau sy'n ymwneud â'ch cwrs neu ofal plant

Os oes gennych chi bartner nad yw'n fyfyrwr ac sy'n gymwys i gael unrhyw fudd-daliadau sy'n seiliedig ar incwm neu'r Credyd Cynhwysol, bydd modd i'ch partner hawlio'r budd-daliadau hynny neu'r Credyd Cynhwysol ar gyfer y ddau ohonoch. Bydd eich incwm chi, gan gynnwys mathau penodol o gyllid i fyfyrwyr, yn cael ei ystyried pan fydd hawl eich partner i gael unrhyw fudd-daliadau sy'n seiliedig ar incwm neu'r Credyd Cynhwysol yn cael ei asesu.

Os byddwch yn cael mathau eraill o gyllid i fyfyrwyr, dylech siarad gyda'r cynghorydd myfyrwyr yn eich prifysgol neu goleg er mwyn cael gwybod a ydynt yn cael eu hystyried fel incwm wrth gyfrifo'ch hawl i gael budd-daliadau neu'r Credyd Cynhwysol.

Am ragor o wybodaeth am fyfyrwyr, budd-daliadau a'r Credyd Cynhwysol, trowch at: www.wales.gov.uk

Canllaw cyffredinol yn unig yw'r wybodaeth a nodir yma. Os ydych o'r farn y gallech gael budd-daliadau'r wladwriaeth, trowch at www.gov.wales/topics/people-and-communities/welfare-reform-in-wales/advice-and-support



Dylech lenwi'r prif gais am gyllid i fyfyrwyr cyn gynted ag y bydd y gwasanaeth yn agor. Y ffordd gyflymaf o wneud hyn yw ar-lein ar: www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk. Mae'r ffurflen yn cynnwys adrannau i hawlio Lwfans Dysgu i Rien i a Grant Oedolion Dibynnol.

Rydw i'n dymuno hawlio Grant Gofal Plant

CAM 1

Pan fydd y gwasanaeth ymgeisio yn agor, gallwch lawrlwytho ffurflen gais Grant Gofal Plant (CCG1) i'w llenwi a'i dychwelyd atom.

CAM 2

Byddwn yn asesu'ch cais ac yn anfon llythyr atoch yn nodi faint o gyllid i fyfyrwyr y gallwch ei gael, gan gynnwys unrhyw Grant Gofal Plant.

CAM 3


Byddwn yn talu unrhyw Grant Gofal Plant, ynghyd â'ch cyllid i fyfyrwyr arall (ac eithrio'r Benthyciad Ffioedd Dysgu a'r Grant Ffioedd), i'ch cyfrif banc yn uniongyrchol ar ffurf tri rhandaliad.

CAM 4

Ar dri phwynt yn ystod y flwyddyn academaidd, tua diwedd pob tymor fel arfer, byddwn yn anfon Cadarnhad o Gostau Gofal Plant (CCG2) atoch er mwyn i chi a'ch darparwr gofal plant ei llenwi. Bydd angen i'ch darparwr gofal plant gadarnhau'r costau gofal plant go iawn y mae'n codi arnoch.

CAM 5

Os bydd y costau gofal plant go iawn yn wahanol i'r swm y gwnaethoch ei amcangyfrif yn eich ffurflen gais CCG1, byddwn yn gostwng neu'n cynyddu eich rhandaliad nesaf o'r Grant Gofal Plant.



Nid wyf yn dymuno hawlio Grant Gofal Plant

CAM 1

Byddwn yn anfon llythyr atoch yn nodi faint o gyllid i fyfyrwyr y gallwch ei gael, gan gynnwys Lwfans Dysgu i Rieni a Grant Oedolion Dibynnol.

CAM 2

Byddwn yn talu unrhyw Lwfans Dysgu i Rieni a Grant Oedolion Dibynnol, ynghyd â'ch cyllid i fyfyrwyr arall (ac eithrio'r Benthyciad Ffioedd Dysgu a'r Grant Ffioedd), i'ch cyfrif banc yn uniongyrchol ar ffurf tri rhandaliad.

CAM 3

Ar ddiwedd y flwyddyn academiaidd, byddwn yn asesu'ch Lwfans Dysgu i Rieni a'ch Grant Oedolion Dibynnol. Byddwn yn chwilio am unrhyw newid yn eich amgylchiadau neu amrywiadau yn ymrwymadau ariannol ac incwm y cartref.

CAM 4

Os na fyddwch wedi cael eich talu ddigon, byddwn yn talu gweddill yr arian y bydd gennych yr hawl i'w gael i chi.

CAM 5

Os talwyd gormod i chi, byddwn yn tynnu'r gordaliad o'ch cyllid i fyfyrwyr ar gyfer y flwyddyn academiaidd newydd, neu'n trefnu ffordd wahanol i chi dalu'r swm yn ôl.



CYSYLLTIADAU A GWYBODAETH DDEFNYDDIOL

Angen help?

Mae gennym adnoddau defnyddiol eraill i'ch helpu, gan gynnwys:

- canllawiau cryno am 'Lwfansau i Fyfrwyr Anabl', 'Grantiau Dibynyddion' ac 'Ad-dalu eich benthyciad'
- canllawiau manwl gan gynnwys 'Canllaw i'r amodau a thelerau'

Mae'r adnoddau hyn ar gael i'w lawrlwytho o: www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk

Cysylltiadau

Cyllid Myfyrwr Cymru

Am ragor o wybodaeth ac i wneud cais, ewch i: www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk

Gallwch ein ffonio hefyd ar **0300 200 4050** (ffôn testun: **0300 100 1693**) rhwng 8am ac 8pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng 9am ac 1pm ar ddydd Sadwrn

Ymddiriedolaeth Gofal Dydd

Elusen gofal plant genedlaethol sy'n darparu gwybodaeth i rieni, darparwyr gofal plant, cyflogwyr, undebau llafur, awdurdodau lleol a llunwyr polisïau. Trowch at: www.daycaretrust.org.uk

Gingerbread


Elusen genedlaethol sy'n darparu cyngor arbenigol a chymorth ymarferol i rieni sengl. Am wybodaeth bellach, ewch i: www.gingerbread.org.uk

Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (NUS)

Mae modd i chi gael rhagor o wybodaeth ar wefan yr NUS sef: www.nus.org.uk/nus-wales

Cymdeithas Genedlaethol Cyngorwyr Ariannol Myfyrwyr (NASMA)

Mae NASMA yn elusen sy'n gweithio i helpu myfyrwyr trwy ddarparu cyngor, gwybodaeth a hyfforddiant. Gallwch gael rhagor o wybodaeth trwy droi at: www.nasma.org.uk



Gallwch lawrlwytho rhagor o gopiau o'r canllaw hwn ar-lein o:
www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk.

Yn ogystal, mae modd i chi archebu copi Braille, copi print bras neu gopi sain o'r canllaw hwn trwy anfon neges e-bost sy'n nodi eich enw, eich cyfeiriad, eich cyfeirnod cwsmer, a chan ddyfynnu cyfeirnod SFW/EXDG/V16 at:
brailleandlargefonts@slc.co.uk neu gallwch ein ffonio ar **0141 243 3686**.

Sylwer: dim ond gyda cheisiadau am ffurfiau amgen ffurflenni a chanllawiau y bydd modd i'r cyfeiriad e-bost a'r rhif ffôn uchod ddelio gyda nhw.

© Argraffydd y Frenhines a Rheolydd HMSO 2016.

Cynhyrchwyd gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyryr ar ran Llywodraeth Cymru.

Gellir atgynhyrchu rhannau o'r ddogfen hon i ddibenion ymchwil, addysg neu hyfforddiant anfasnachol ar yr amod y cydnabyddir y ffynhonnell. Ar gyfer unrhyw ddefnydd arall, cysylltwch â: **HMSOlicensing@cabinetoffice.x.gsi.gov.uk**

Mae'r llyfryn hwn ar gyfer arweiniad yn unig ac nid yw'n ddatganiad o'r gyfraith.

WG27902

ISBN: 978-1-4734-5846-8